COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANBEDR DYFFRYN CLWYD A GYNHALIWYD AR DDYDD IAU 3 MAI 2018 YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y PENTREF, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD AM 7.30 Y.H.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Lyn Evans (Cadeirydd), Timothy Baker, Kenneth Tams, Rhian Jones, Nicholas Smith, Bob Barton a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Constance Atwill a David Ritchie.

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB.
Y Cyng. Rhian Jones – eitem 8 ar yr agenda.

3. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER CYFNOD 2018/19.
Cafodd y Cyng. Lyn Evans ei ethol yn Gadeirydd gan yr Aelodau ar gyfer cyfnod 2018/19.

4. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER CYFNOD 2018/19.
Cafodd y Cyng. Tim Baker ei ethol yn Is-Gadeirydd gan yr Aelodau ar gyfer cyfnod 2018/19.

5. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR.
Derbyniodd yr aelodau gofnodion cyfarfod 9 Ebrill 2018 fel rhai cywir, a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd.

6. MATERION YN CODI O'R COFNODION .
A. Cyflwynodd y Cadeirydd ddiweddariad yn dilyn presenoldeb Noela Jones, Pennaeth Tai Grŵp Cynefin, ym mhwyllgor diwethaf y Cyngor. Adroddodd ar y cyfarfod a gafwyd gyda Geoff Davies (Cyngor Sir Ddinbych) ynglŷn â'r angen am dai lleol.
B. Dywedodd y Cadeirydd y bydd perchennog/asiant y cae sydd rhwng y Rheithordy a Brakendene yn cyflwyno cais cyn-cynllunio yn fuan.
C. Derbyniwyd cadarnhad gan Gyngor Sir Ddinbych fod y Pwyllgor Safonau wedi rhoi caniatâd i'r Cynghorwyr Lyn Evans a Tim Baker fod ar Bwyllgor Rheoli Cynllun y Ganolfan Gymunedol am 6 mis, ond na fydd ganddynt bleidlais. Yn dilyn hyn, mae'r Clerc wedi cyflwyno cyfansoddiad drafft "Prosiect y Ganolfan Gymunedol" i Gyngor Sir Ddinbych.

7. CYD-OPSIWN CADAIR WAG Y CYNGOR.
Yn dilyn derbyn ymgeisydd am sedd wag y Cyngor, sef Jackie Bird, Brakendene, Lon Cae Glas, cyd-etholodd yr Aelodau Jackie Bird fel Aelod o'r Cyngor.

8. DIWEDDARIAD YNGLŶN Â'R GANOLFAN GYMUNEDOL.
Cyflwynodd y Cyng. Tim Baker ddiweddariad i'r Aelodau ynghylch y Ganolfan Gymunedol fel a ganlyn:-
A: Daeth nifer da dros ben o bobl i'r Diwrnod Agored yn y Griffin ar 22 Ebrill 2018.
B. Diolchodd i bawb am eu cefnogaeth yn dosbarthu'r taflenni ynglŷn â'r diwrnod agored.
C. Mae'r Ymgynghorwyr Malcolm Harkinson a Michael Sutcliffe yn rhoi cymorth i'r Pwyllgor Rheoli gyda cham nesaf y Ganolfan Gymunedol.

9. NEUADD BENTREF LLANBEDR DYFFRYN CLWYD.
Yn dilyn cais diweddar am gymorth grant gan Bwyllgor Rheoli Neuadd Bentref Llanbedr Dyffryn Clwyd, penderfynodd yr Aelodau fel a ganlyn:-
A: Rhyddhau'r cymorth grant o £400.00.
B. Rhent 12 Cyfarfod o'r Cyngor -£120.00.

C. Gofyn am gael cynrychiolydd o'r Cyngor ar y Cyngor Rheoli.

10. CYLLID.

Cyfrifon banc:-

1. Cyfrif Cyfredol Nat West £777.38.
2. Cyfrif Cadw Nat West £9,328.83.

B. Derbynneb Praesept Cyntaf 2018/19 - £8,500.00.

C. Talu biliau:-

1. Ein Griffin ni – Benthyciad sefydlu - £1,500.00.
2. Brenda Jones – Cyfieithu cofnodion - £40.00.
3. Zurich Municipal – Yswiriant blynyddol - £257.60.
4. Neuadd Bentref Llanbedr Dyffryn Clwyd - £520.00.

D. Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020 – Cais am gymorth grant gan y Pwyllgor Ardal. Penderfynodd yr aelodau drafod hyn yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

11. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Cynlluniau diwygiedig/ychwanegol ar gyfer cais 16/2018/0027– codi un annedd yn Tŷ Capel (Capel Llwynedd gynt), Llanbedr Dyffryn Clwyd – Mae'r Cyng. Bob Barton wrthi'n paratoi sylwadau'r Cyngor ar y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd.

B. Cais 16/2018/0283 – Codi garej newydd a phorth i annex yn Rossignol, Ffordd yr Wyddgrug, Llanbedr Dyffryn Clwyd – dim gwrthwynebiad.

12. GOHEBIAETH.

Bydd Adran Gynllunio Cyngor Sir Ddinbych yn cynnal y Sesiwn Hyfforddiant Cynllunio ar ddydd Iau 24 Mai 2018 0 6.00 tan 8.00 yr hwyr yn Caledfryn, Dinbych.

13. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Adroddodd y Cadeirydd ar ran y Cynghorydd Sir, Huw Williams, am yr arolwg camera cyflymder diweddar a gynhaliwyd ar yr A494 yn Llanbedr Dyffryn Clwyd.

14. MATER BRYS DAN ADRAN 100B (4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

Adroddodd y Cyng. Bob Barton ar gyfarfod Gwanwyn AHNE "Aelodau Lleol a Chynghorau Cymunedol" a fynychodd gyda'r Cadeirydd ar 23 Ebrill 2018. Penderfynodd yr Aelodau ethol y Cyng. Barton ar Bwyllgor Prosiect yr CDC, yn dilyn y cyfarfod AHNE.

15. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Dydd Llun 4 Mehefin 2018 yn yr Ystafell Bwyllgor, Neuadd y Pentref, Llanbedr Dyffryn Clwyd am 7.30 y.h.